**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: PO748/EJ/HG
23 Hydref 2019

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-917 Dim enw dwyieithog i'r Senedd**

Diolch am eich llythyr ar 15 Hydref 2019 ynghylch y ddeiseb uchod.

Pan gyflwynais y Bil ym mis Chwefror, roedd y Bil yn nodi y dylid galw'r Cynulliad yn "Senedd". Mae'r enw "Senedd" yn cael ei ddefnyddio a'i gydnabod yn eang yng Nghymru, ac mae'n adlewyrchu statws cyfansoddiadol y sefydliad fel senedd genedlaethol. Mae "Senedd" yn perthyn i deulu rhyngwladol o enwau megis 'Senate' a 'Seanad' sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio deddfwrfeydd cenedlaethol. Hefyd, byddai defnyddio "Senedd" yn Gymraeg a Saesneg wedi adlewyrchu ymrwymiad cryf y Cynulliad i hyrwyddo statws y Gymraeg a'i defnydd.

Fel y'i cyflwynwyd, roedd y Bil hefyd yn datgan y gellir cyfeirio at y Senedd fel 'Welsh Parliament' i gynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r gair Cymraeg ac i esbonio statws cyfansoddiadol y sefydliad.

Yn ystod Cyfnod 2 o hynt deddfwriaethol y Bil drwy'r Cynulliad, cyflwynodd gwahanol Aelodau welliannau i'r Bil i gynnig enw gwahanol i'r Cynulliad.

Cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan ar 9 Hydref i ystyried yr holl welliannau arfaethedig i'r Bil. O ran enw'r Cynulliad, pleidleisiodd mwyafrif o'r Aelodau o blaid gwelliant a gyflwynwyd gan Carwyn Jones AC i gynnig yr enwau "Senedd Cymru" neu "Welsh Parliament". Yn ystod y ddadl, nododd Carwyn Jones AC mai'r rhesymeg dros yr enwau a gynigiodd oedd i ddarparu "sicrwydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

cyfreithiol" drwy sicrhau bod ystyr "Senedd Cymru" yn y gyfraith yn cael ei ddeall yn glir.

Fel y nodais yn ystod trafodion Cyfnod 2, mater i Aelodau'r Cynulliad yw penderfynu beth ddylai'r enw newydd fod. Bydd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn gofyn am uwchfwyafrif o bleidleisiau i'w basio, ac er fy mod wedi gobeithio y byddai'r enw uniaith "Senedd" yn ennyn y gefnogaeth fwyaf ymhlith yr Aelodau, rwy'n derbyn, o'r amrywiol opsiynau sydd wedi'u cyflwyno i'r Aelodau, mai "Senedd Cymru" neu "Welsh Parliament" enillodd y nifer fwyaf o bleidleisiau yng Nghyfnod 2. Ar yr un pryd, rwy'n siomedig bod yr Aelodau wedi penderfynu yn erbyn yr enw uniaith "Senedd" oherwydd gallai rhai o'r manteision sy'n gysylltiedig â'r enw hwnnw gael eu colli.

Er y cytunwyd ar yr enwau 'Senedd Cymru' a 'Welsh Parliament' yn ystod ail gyfnod y Bil, ni wnaeth y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan newid y cyfeiriad a wneir yn y Bil at ddefnyddio'r gair Cymraeg "Senedd" mewn teitlau Saesneg swyddogol, megis: "Acts of the Senedd", "Clerk of the Senedd", a "Senedd Commission". Gan hynny, nid yw'r teitlau hyn yn cynnwys y geiriau 'Welsh Parliament'. Nod Carwyn Jones oedd "sicrhau bod yr enw 'Senedd' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin".

Gan fod y Bil bellach wedi cyrraedd Cyfnod 3, gall Aelodau'r Cynulliad gynnig gwelliannau i'r Bil unwaith eto. Bydd yr Aelodau'n ystyried ac yn pleidleisio ar welliannau a gynigiwyd i'r Bil yn y ddadl Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn, sydd wedi'i threfnu ar hyn o bryd ar gyfer 13 Tachwedd 2019.

Yn gywir



Elin Jones AC

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English